**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

**Gareth Pierce**
Prif Weithredwr, CBAC

22 Chwefror 2018

Annwyl Mr Pierce,

**Argaeledd gwerslyfrau**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Chwefror, trafododd Aelodau adroddiadau yn y wasg ynghylch yr honiad bod diffyg gwerslyfrau ar gael i ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru. Yn benodol, roedd y Pwyllgor yn bryderus o ddysgu am yr oedi honedig i fyfyrwyr sy'n astudio astudiaethau crefyddol gyda CBAC.

Yn ystod sesiwn graffu ar 6 Rhagfyr 2017, gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i Cymwysterau Cymru ynghylch y pwnc hwn. Yn ystod y sesiwn, dywedodd Cymwysterau Cymru eu bod yn gyfforddus bod y gwerslyfrau ar gael ar gyfer y farchnad a reoleiddir ond yn cydnabod bod pryderon ynghylch llyfrau sy'n cael eu rhyddhau drwy'r farchnad fasnachol y mae CBAC yn darparu gwasanaethau ar ei chyfer (Cofnod y Trafodion, paragraff 17, 6 Rhagfyr 2017).

Er mwyn helpu i ystyried p'un a oes angen gwaith craffu pellach yn y maes hwn, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu eich asesiad o'r canlynol:

- p'un a oes prinder gwerslyfrau cyfrwng Cymraeg, neu gyfrwng Saesneg, i ddisgyblion yng Nghymru sy'n dilyn TGAU a Safon Uwch;
- p'un a ydych yn credu y bydd yr anawsterau a nodir yn cael effaith ar ganlyniadau disgyblion;
- p'un a / sut ydych chi'n ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Cymwysterau Cymru er gwybodaeth iddynt.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

Cc Philip Blaker, Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565